Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Llywio'r Gymraeg

Dyddiad: 4 Tachwedd 2020

Rhif Union: 01824 712589

ebost: democratic@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG, DYDD MAWRTH, 10 TACHWEDD 2020** am **10.00 am** via **VIDEO CONFRENCE**.

**SYLWCH: YN SGIL Y CYFYNGIADAU AR DEITHIO A'R ANGEN I GADW PELLTER CYMDEITHASOL, NI GYNHELIR Y CYFARFOD HWN YN EI LEOLIAD ARFEROL. BYDD YN GYFARFOD O BELL TRWY FIDEO-GYNADLEDDA AC NI FYDD AR AGOR I'R CYHOEDD.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 3 - 4)

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2019 (copi ynghlwm).

**5 ADRODDIAD MONITRO COMISIYNYDD Y GYMRAEG** (Tudalennau 11 - 16)

Ystyried canfyddiadau adroddiad monitro gan y Comisiynydd Cymraeg (copi ynghlwm).

**6 STRATEGAETH IAITH GYMRAEG** (Tudalennau 17 - 20)

Ystyried llinell amser arfaethedig ar gyfer cynhyrchu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd (copi ynghlwm)

**7 GWEITHGARWCH HYRWYDDO'R GYMRAEG** (Tudalennau 21 - 28)

Ystyried adroddiad ar weithgareddau hyrwyddo'r Gymraeg a gynhaliwyd yn ystod Covid (copi ynghlwm).

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 29 - 30)

Ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor (copi ynghlwm)

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Ellie Chard
Ann Davies
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Arwel Roberts
Anton Sampson
Graham Timms
Joe Welch
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# PWYLLGOR LLYWIO'R GYMRAEG

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Gymraeg a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, ddydd Mawrth 12 Tachwedd 2019 am 10.00am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ellie Chard, Ann Davies, Huw Hilditch-Roberts, Arwel Roberts, Graham Timms (Cadeirydd), Joe Welch a/ac Emrys Wynne (Is-Gadeirydd)

Arsylwyr – Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, y Cynghorydd Bobby Feeley, y Cynghorydd Alan James a'r Cynghorydd Rhys Thomas

## HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd (GW), Swyddog y Gymraeg (MC), Rheolwr Tîm Datblygu Busnes a'r Economi (MH), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS) Comisiynydd y Gymraeg (AR), Swyddog Comisiynydd y Gymraeg (DJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (HB)
Dyddiadur Cynghorwyr

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2019.

***PENDERFYNWYD: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.***

## 5 ADBORTH COMISIYNYDD CYMRAEG

Eglurodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd y byddant yn creu adroddiad blynyddol a oedd yn adolygu negeseuon e-bost, cwynion, galwadau ffôn, gwefan ayyb. Roedd y canlyniadau diweddaraf yn gadarnhaol iawn.
Dywedodd bod problemau bychain ynghylch negeseuon e-bost, lle'r roedd nifer o e-byst Cymraeg wedi cael eu hanfon i'r sir ac atebwyd un e-bost yn unig yn y Gymraeg.

Roedd dogfennau, llyfrau, polisïau ayyb i gyd yn ddwyieithog, er roedd arnynt angen sicrhau bod gwasanaethau yn ystyried y lefel o'r Gymraeg i bob swydd.

Cytunodd yr Aelodau y gallai fod yn fuddiol i Gomisiynydd y Gymraeg fynychu cyfarfod briffio'r cyngor, neu'r cyngor llawn.

Diolchodd Comisiynydd y Gymraeg i bawb am y gwahoddiad yn y cyfarfod. Hefyd diolchodd i'r Cynghorydd Graham Timms am ei gyflwyno yn y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd eisiau diweddaru'r aelodau o'r sefyllfa gyfredol, cyflwynodd Dylan Jones o'r tîm Comisiynydd Y Gymraeg. Hefyd roedd y Comisiynydd eisiau hysbysu'r aelodau y bydd newidiadau yn cael eu gwneud.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod adroddiad yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn sy'n adolygu safonau o fewn yr Awdurdod Lleol, cwynion a sut yr ymdriniwyd â hwy. O ran newid, roeddynt wedi gweld gwahaniaeth mawr. Ers penodi Swyddog Iaith Gymraeg, mae gwahaniaeth mawr wedi bod yn fewnol.

Amlygwyd mai'r newid sylweddol yn fewnol i Sir Ddinbych oedd symud y Gwasanaeth Hamdden. Byddai angen ei fonitro i sicrhau bod yr un lefel o safonau yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd y Comisiynydd eu bod wedi adolygu recriwtio rhwng mis Mehefin a Rhagfyr 2018. Roedd 85 o swyddi yn cael eu hysbysebu ar y pryd, roedd 75 yn Gymraeg yn ddelfrydol a 10 yn Gymraeg yn hanfodol. Dywedodd y Comisiynydd y dylai bod categorïau eraill ar y swydd o ran y Gymraeg, roedd angen adolygu'r broses gyfredol.

Eglurodd y Comisiynydd bod ychydig o newid yr oedd wedi rhoi ar waith ers dechrau ei swydd.
Dywedodd ei fod angen sicrhau bod adnoddau ar gael i gyflawni ymchwiliadau ac ymchwil manwl a chywir.
Y rheswm dros hyn yw y gallai'r Comisiynydd gynnal ymchwiliad heb gael unrhyw wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol. Ar ôl dechrau'r ymchwiliad yna byddai'n rhaid ei gwblhau'n llawn.
Byddai'r comisiynydd yn cyflawni'r ymchwiliad, cyflwyno adroddiad i'r Awdurdod Lleol, yna byddai'r Awdurdod Lleol yn derbyn y broblem ac yn adolygu sut y byddent yn stopio'r un broblem rhag digwydd yn y dyfodol.

Amlygodd y Comisiynydd a'r aelodau'r rhwystrau y mae Iwerddon yn ei gael gyda'r iaith Gaeleg, a'r pryder bod ieithoedd swyddogol yn marw.
Nid oedd eisiau'r un problemau godi yng Nghymru, mae tua 9% o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg drwy'r dydd, bob dydd, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eu bod eisiau'r ffigur hwn fod yn 20% erbyn 2050.

Dywedodd y Comisiynydd ei fod eisiau cwblhau gwaith ynghylch lefel Sgil Iaith Gymraeg. Eglurodd yn ystod ymweliad diweddar i ysgol, ei fod yn amlwg bod myfyrwyr chweched dosbarth yn deall Cymraeg ond yn cael trafferthion i ymateb yn y Gymraeg. Teimlodd bod angen rhywbeth mewn lle i sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i siarad Cymraeg ar ôl y byd addysg.

Mae myfyrwyr yn gadael addysg heb wybod bod yr iaith Gymraeg yn sgil. Dyma'r rheswm fod y Comisiynydd eisiau canolbwyntio ar bolisïau recriwtio, teimlodd petai 75 o swyddi wedi'u rhestru fel Cymraeg yn ddymunol, yna nid oes digon o feddwl wedi cael ei roi wrth asesu'r rôl hon.

Cytunodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts bod safonau yn bwysig, ond mai dim ond megis dechrau yw hyn. Teimlodd bod agwedd yn flaenoriaeth, fodd bynnag roedd gwaith gwych wedi cael ei wneud eisoes yn yr Awdurdod Lleol.
Yn y sir, rydym wedi gweld buddsoddiadau sylweddol mewn ysgolion, Ysgol Carreg Emlyn, Ysgol y Llys ayyb. Er hynny mae niferoedd Addysg Gymraeg wedi cynyddu gyda'r gobaith y bydd y ffigurau hyn yn parhau i gynyddu. Dywedodd y Cynghorydd Hilditch-Roberts y byddai'n croesawu'r Comisiynydd i gefnogi'r Ganolfan Iaith yn Ysgol Glan Clwyd. Roedd y ganolfan yn bwysig gan y gallent wthio'r iaith Gymraeg o bobl ifanc i oedolion.
Yn ôl yr aelodau, unwaith y mae disgyblion yn cyrraedd 16 oed ac yn penderfynu ar eu pynciau Lefel A, maent yn tueddu symud i addysg cyfrwng Saesneg gan ei fod yn cynnig mwy o opsiynau. Roedd angen gwneud rhywbeth i gadw myfyrwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Dywedodd y Comisiynodd mai'r Awdurdod Lleol sydd yn gallu gwneud penderfyniadau ar ganrannau. Er enghraifft gallai rhai adrannau asesu'r swydd a dod i'r casgliad nad oedd y Gymraeg yn hanfodol ac felly bod digon o siaradwyr Cymraeg eisoes yn yr adran.
Aeth ymlaen i egluro nad diffyg siaradwyr Cymraeg ydi'r broblem, ond hyder y rhai sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Mae Coleg Cambria bellach yn cynnig rhywfaint o arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae rhai o'r tiwtoriaid personol yn siarad Cymraeg hefyd. Er bod hynny'n wych, dywedodd y Comisiynydd y gellir gwneud llawer mwy i gefnogi myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg.

Roedd y Comisiynydd yn teimlo ei bod yn bwysig dilyn y broses gwynion gywir. Unwaith mae'r Comisiynydd yn derbyn cwyn, mae'r mater yn cael ei ddyrannu i swyddog ymchwiliadau ac mae'r swyddog hwnnw yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad llawn i'r mater. Mae swyddogion ymchwiliadau yn ystyried unrhyw gwynion blaenorol, mesurau sydd ar waith i atal cwynion yn y dyfodol, yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch a ddylid cynnal ymchwiliad llawn.
Dywedodd y byddai'n fodlon rhyddhau adnoddau mewnol pan fydd polisïau'n cael eu llunio, yn hytrach na dod o hyd i broblemau yn nes ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod o wedi dysgu Cymraeg ac roedd yn betrusgar wrth siarad, a dywedodd ei fod yn enghraifft berffaith o'r math o berson y mae angen canolbwyntio arnynt. Dywedodd ei fod yn teimlo y byddai'n cael ei feirniadu am siarad yn anghywir petai'n siarad Cymraeg, er ei fod yn gwybod mai nid dyna'r achos. Gofynnodd a oedd unrhyw beth yn cael ei ddatblygu i sicrhau nad yw rhwystrau fel y rhai uchod yn dod yn broblem.

Dywedodd y Comisiynydd fod gwisgo cortynnau gwddf a bathodynnau Cymraeg yn ffordd dda o annog pobl i siarad Cymraeg gyda'i gilydd. Ond mae'n rhywbeth i'w

adolygu os bydd y rhwystrau'n parhau. Dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi cytuno i fynychu pob un o gyfarfodydd Rhanbarth Llais Cymru.

Aeth ymlaen i egluro eu bod yn gweithio'n agos gyda banciau a siopau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, roedd Menter Iaith yn gyfrifol am fusnesau llai.

I gloi, diolchodd y Comisiynydd i'r aelodau am y cyfle gael mynychu'r cyfarfod, a dywedodd y byddai'n fodlon mynychu unrhyw gyfarfodydd yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD: derbyn y diweddariad a bod y pwyllgor yn ei nodi.***

**6 CYNNYDD GYDA SAFONAU IAITH CYMRU (HUNAN ASESU)**

***PENDERFYNWYD: bod aelodau wedi trafod yr eitem yn yr eitem flaenorol a chytunwyd i barhau i'r eitem nesaf ar y rhaglen.***

**7 DIWEDDARIAD EISTEDDFOD YR URDD**

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd wrth aelodau fod 1,600 o bobl wedi cymryd rhan yn yr ŵyl gyhoeddi. Dywedodd fod llawer o ysgolion wedi cymryd rhan ac roedd ymateb y Rhyl wedi creu argraff go iawn ar yr Urdd.

Cyfathrebu – roedd y grŵp strategol yn penderfynu ar y brif babell ar hyn o bryd. Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchoedd eu bod am gael 3 rhan i'r babell; stiwdio, adran ar gyfer busnes a thwristiaeth ac adran ar gyfer celf a dylunio.

Busnes a Thwristiaeth – roedd gan y grŵp strategol nifer o syniadau, er enghraifft roeddent am i ganolfan feiciau Llandegla fynychu, SC2, stondinau agored sy'n hyrwyddo eu busnes.

Celf a Dylunio – y syniad oedd sicrhau bod rhywbeth yn digwydd trwy gydol yr wythnos. Er enghraifft, cystadleuaeth ddylunio barhaus a oedd yn annog pobl i ddychwelyd.

Ardal chwaraeon – roedd staff 5x60 yn dod â gwahanol chwaraeon i mewn trwy gydol yr wythnos, gydag offer.

Ysgolion – roedd sioeau ysgolion cynradd yn cael eu cynllunio eisoes, roedd y sioeau ar agor i flwyddyn 5 a 6, a byddai sioe ysgolion uwchradd hefyd.

***PENDERFYNWYD: derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Eisteddfod.***

**8 STRATEGAETH IAITH GYMRAEG - BUSNES AC ECONOMI**

Rhoddodd y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes gyflwyniad PowerPoint i'r pwyllgor am Brosiect Peilot Cymraeg mewn Busnes.

I ddechrau, nododd fod y mwyafrif o ymatebion wedi dweud y byddai'n costio arian, fodd bynnag roedd enghreifftiau i'w gweld yn yr astudiaeth achos i brofi y byddai'n fanteisiol yn ariannol.

At ddibenion y cofnodion, chwaraewyd fideo i'r pwyllgor.

Roedd y fideo yn trafod cefnogaeth a chyngor o ran y Gymraeg a hefyd Cynnyrch Cymreig Lleol.

Astudiaethau Achos – roedd y rhaglen yn annog busnesau i ymgysylltu â staff. Er enghraifft, roedd gwesty'r Oriel House yn darparu priodasau cwbl Gymreig ac roedd ystadegau yn profi bod cynhyrchiant yn cynyddu.

Tynnodd y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes sylw at y ffaith fod y galw am Gyrsiau Cyfryngau Cymdeithasol wedi cynyddu.
Dywedodd hefyd fod y tîm EBT yn llai o lawer a allai achosi oedi mewn prosesau.

Dywedwyd wrth aelodau eu bod yn chwilio am fusnesau lleol i ymuno â phabell CSDd yn yr Eisteddfod.

Dywedwyd wrth y pwyllgor fod y tîm wedi bod yn gweithio ar fasnachwyr profiadol. Gweithio ar sut gall busnesau a siopau fod yn fwy cyfeillgar a chroesawgar, cerddoriaeth ac ati.

Dywedodd y Cadeirydd fod busnesau yn chwarae rhan hanfodol wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Roedd angen annog staff sy'n wynebu'r cyhoedd i ymgysylltu â'r Gymraeg. Diolchodd i'r Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes am fynychu a chroesawodd y tîm yn ôl i gyfarfodydd y dyfodol.

I gloi'r eitem hon ar y rhaglen, dywedwyd bod y Rheolwr Tîm Datblygiad Economaidd a Busnes yn gadael yr awdurdod a hwn fyddai ei gyfarfod olaf. Diolchodd y pwyllgor iddo am ei waith a dymuno'n dda iddo.

***PENDERFYNWYD: bod y pwyllgor yn derbyn a nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Iaith Gymraeg.***

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor i'w hystyried.

***PENDERFYNWYD: derbyn a nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor.***

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:00pm**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Adroddiad i'r** Pwyllgor Strategol Iaith Gymraeg

**Dyddiad y cyfarfod** 10 Tachwedd 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins

**Awdur yr Adroddiad** Gareth Watson – Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd

**Teitl** Gwaith Monitro Comisiynydd y Gymraeg

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am waith Monitro Comisiynydd y Gymraeg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar ganfyddiadau gwaith monitro 2020, a gynhaliwyd gan swyddfa'r Comisiynydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno â'r camau gweithredu sy'n deillio o'r gwaith.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn monitro profiad defnyddwyr yn flynyddol trwy brofi gwasanaethau penodol – gan gynnwys cyfatebiaeth, ffôn, derbynfa, gwefannau ac ati – i gael hapsampl o sefydliadau.
4.2 Mae'r gwaith yn digwydd yn ysbeidiol yn ystod y flwyddyn trwy ymarferion cwsmer cudd, ymweliadau safle ac archwiliadau ar-lein. Mae'r gwaith wedi ei ddylunio fel nad yw'n arwain at ddefnydd afresymol o adnoddau sefydliadau.

4.3 Yn 2019-20, roedd Sir Ddinbych yn rhan o'r hapsampl o sefydliadau. Mae'r canfyddiadau wedi'u hamlinellu gan Swyddfa'r Comisiynydd, gyda'r golwg i'r sefydliad
gymryd camau priodol i sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion statudol.

4.4 Gellir dod o hyd i grynodeb o’r prif ganfyddiadau yn Adran 4. Yn gyffredinol roedd mwyafrif y materion a aseswyd yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg.
4.5 Roedd y materion a godwyd yn cynnwys un neges e-bost na chafodd ymateb yn y Gymraeg ac ni dderbyniwyd gwasanaeth cwbl Gymraeg wrth ymweld ag un o dderbynfeydd y Cyngor.

4.6 Prif Ganfyddiadau:

**Gohebiaeth**
- Anfonwyd tair neges e-bost yn Gymraeg i’r Cyngor ar-lein rhwng Mehefin a Thachwedd 2019.
- Derbyniwyd ymateb yn y Gymraeg i ddwy neges e-bost.
- Darparwyd deunydd ychwanegol yn y Gymraeg gydag un ymateb. Nid oedd angen gwybodaeth ychwanegol i ateb yr ymholiad gyda’r ymateb arall.
- Roedd yr ymatebion yn cynnwys datganiad bod croeso i chi gyfathrebu yn y Gymraeg ac ni fyddai cyfathrebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

**Galwadau ffôn**
- Gwnaed tair galwad ffôn i 01824 706000 rhwng Mehefin a Rhagfyr 2019.
- Roedd yr holl wybodaeth awtomatig ar gael yn y Gymraeg.
- Derbyniwyd cynnig o Wasanaeth Cymraeg ar ddechrau bob galwad.
- Deliodd y sefydliad yn llwyddiannus gyda’r tair galwad yn y Gymraeg a darparwyd ymateb llawn i’w ymholiad.

**Ffurflenni**
- Roedd tair ffurflen yn destun arolwg.
- Roedd y tair ffurflen ar gael yn Gymraeg.
- Roedd yr holl fersiynau Saesneg yn datgan bod y ffurflenni hefyd ar gael yn y Gymraeg.

**Datganiad i’r Wasg**
- Roedd tri datganiad i’r wasg yn destun arolwg.
- Roedd y tri ar gael yn y Gymraeg.
- Roedd y tri yn dudalennau ar y wefan, ac roedd botwm dewis iaith ar gael ar y fersiynau Saesneg.

**Taflen wybodaeth/ pamffled / cerdyn**
- Roedd tair esiampl yn destun arolwg.
- Roedd y tair esiampl ar gael yn y Gymraeg.
- Nid oedd un fersiwn Saesneg yn datgan bod y ddogfen hefyd ar gael yn y Gymraeg.

**Hunaniaeth gorfforaethol**

- Roedd tair esiampl yn destun arolwg.
- Roedd y tair esiampl yn ymddangos yn y Gymraeg.

**Gwefan**

- Roedd 30 tudalen o wefan y sefydliad yn destun arolwg.
- Roedd y testun ar bob tudalen ar gael yn y Gymraeg.

**Facebook a Twitter**

- Roedd 15 neges ar dudalen Facebook y sefydliad yn destun arolwg.
- Roedd y 15 neges ar gael yn y Gymraeg.
- Roedd 15 neges Twitter ar gyfrif Twitter y sefydliad yn destun arolwg.
- Roedd 14 neges ar gael yn y Gymraeg.

**Swyddi newydd a gwag**

- Roedd 9 swydd yn destun arolwg.
- Crybwyllwyd y Gymraeg yn yr holl swyddi.
- Roedd y Gymraeg yn cael ei ystyried yn 'hanfodol' ar gyfer 0 swydd.
- Roedd 15 hysbysed swydd ar gael yn y Gymraeg.
- Roedd ffurflenni cais a swydd ddisgrifiadau ar gyfer bob swydd ar gael yn y Gymraeg.
- Roedd y ffurflen gais yn cynnwys dewis i nodi iaith ar gyfer asesiad.

**Ardaloedd derbynfa**

- Ymwelwyd â swyddfeydd Caledfryn, Dinbych, dwywaith rhwng Hydref a Rhagfyr 2019.

- Ni chafodd yr ymwelydd ei gyfarch yn y Gymraeg gan y derbynnydd yn unrhyw un o'r ymweliadau.
- Ni lwyddodd yr aelod o staff i ddelio â'r ymweliadau yn y Gymraeg.
- Nododd yr aelod staff ei bod yn dysgu Cymraeg ac yn gwisgo cortyn gwddf i ddangos hyn.
- Roedd gan y sefydliad arwyddion yn ardal y dderbynfa yn datgan fod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg.
- Roedd holl siaradwyr Cymraeg yn gwisgo bathodynnau i ddangos eu gallu.
- Mae'r sefydliad yn hybu defnydd o'r Gymraeg yn ardal y dderbynfa.

**Peiriannau hunanwasanaeth**

- Nid oedd unrhyw beiriannau hunanwasanaeth ar gael

**Arwyddion**

- Roedd chwe arwydd yn destun arolwg yn ystod yr ymweliadau i swyddfeydd Caledfryn, Dinbych yn ystod Hydref a Rhagfyr 2019.
- Roedd yr holl destun ar y 6 arwydd ar gael yn y Gymraeg.
- Roedd testun ar bob arwydd wedi'i osod fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.
- Roedd yr holl destun yn gywir o ran mynegiant ac ymadrodd.

**4.7 Cynllun Gweithredu 2020**

| **CAM GWEITHREDU** | **GAN BWY** | **PRYD** |
|---|---|---|
| Mynd i'r afael â materion a godwyd yn yr adroddiad yn uniongyrchol gyda'r gwasanaethau. | Manon Celyn | Rhagfyr 2020 |
| Rhaglen gyfathrebu o negeseuon i atgoffa staff o'u rolau a chyfrifoldebau | Gareth Watson<br><br>Manon Celyn | Rhagfyr / Ionawr 2021 |
| Ymarfer Cwsmer Cudd | Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg CSDd | Mawrth 2021 |

## 5 Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae’r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a’r diwylliant Cymreig, sy’n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes yna gyllideb ar gyfer yr iaith Gymraeg. Disgwylir i unrhyw gostau gael eu derbyn gan gyllidebau presennol.

## 7 Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau’r Gymraeg.

Un o brif elfennau’r Ddeddf Lles a Chenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau’r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## 8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Dim angen gan fod hwn yn ddarn o waith allanol.

## 9 Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Y brif risg o unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth fyddai cwyn yn cael ei gyflwyno i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, yn ogystal â niwed i enw da’r Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r** Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg

**Dyddiad y cyfarfod** 10 Tachwedd 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Y Cynghorydd Huw Hilditch Roberts / Nicola Stubbins

**Awdur yr Adroddiad** Gareth Watson, Arweinydd Tîm - Rheoli Cyfathrebu ac Ymgyrchoedd

**Teitl** Strategaeth Iaith Gymraeg

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn sôn am ddatblygu Strategaeth Iaith Gymraeg newydd ar gyfer Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar amserlen arfaethedig ar gyfer datblygu'r strategaeth newydd

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

I gymeradwyo'r dull a'r amserlen sy'n gysylltiedig â'r strategaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 wedi galluogi'r Llywodraeth i bennu safonau yn ymwneud â'r Iaith Gymraeg ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i holl awdurdodau lleol fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg, fel rhan o'u hymateb i'r Safonau.

4.2 Mae'r strategaeth bresennol, a fabwysiadwyd gan Gabinet Sir Ddinbych ym Mawrth 2017, yn amlinellu'r dull tuag at hyrwyddo'r Gymraeg a hwyluso ei ddefnydd o fewn y sir, ac mae disgwyl i'r Cyngor adolygu ei strategaeth bum mlynedd wedi'r dyddiad cyhoeddi. Disgwylir y strategaeth newydd ym Mawrth 2022.

4.3 **Mae'r Strategaeth Iaith Gymraeg bresennol yn cynnwys Gweledigaeth:**

- Mae Sir Ddinbych yn sir ddwyieithog yn bennaf, gyda diwylliant a threftadaeth cyfoethog. Rydym yn falch iawn o'r ffaith hon ac eisiau'r balchder hyn gael ei adlewyrchu yn ein rhyngweithiad o ddydd i ddydd gyda chymunedau, preswylwyr ac ein staff.
- Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod egwyddorion Safonau'r Gymraeg yn ategu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd; mae arnom eisiau i bobl allu cael mynediad i wasanaethau drwy eu dewis iaith yn naturiol, ym mhob cam o'u bywydau.

- Mae arnom eisiau gwella diwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad, gan ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd cymdeithasol i'n staff weithio yn y Gymraeg a chynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle.
- Dymunwn weithio gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach i sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu yn Sir Ddinbych.
- Mae gennym uchelgais i fod yn arweinwyr sector yn natblygiad yr iaith Gymraeg yng Nghymru.

**4.4 Themâu cyfredol:**

- Mae Thema 1 yn edrych ar y ffordd mae Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i bartneriaid allweddol sy'n rhan o ddarparu'r Gymraeg ar draws y sir a sut allent weithio yn fwy strategol a chynllunio eu gweithgareddau mewn modd mwy cydlynol.

- Mae Thema 2 yn edrych ar gynyddu'r nifer o ddisgyblion sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg yn ystod eu bywyd yn yr ysgol a'u hannog i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau yn y dyfodol. Rydym hefyd yn ceisio gwella cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cymdeithasol gan weithio gyda gwasanaethau hamdden ac ieuenctid.

- Mae Thema 3 yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar gymunedau mewn perthynas â'r Gymraeg, gyda chanolbwynt allweddol ar effaith penderfyniadau polisi. Mae canolbwynt allweddol yn cael ei roi ar faterion cynllunio lleol a'r Fframwaith Mwy na Geiriau er mwyn gwella gwasanaethau dwyieithog mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

- Mae Thema 4 yn edrych ar y ffordd y dylai Sir Ddinbych a'i bartneriaid datblygu'r economi gydnabod pwysigrwydd economi ffyniannus i ddyfodol y Gymraeg a sicrhau bod strategaethau mewn lle i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc aros yn y gymuned leol.

- Mae Thema 5 yn edrych ar y ffordd y gall y Cyngor wella'r Gymraeg trwy ddarparu hyfforddiant i staff a gwella ethos ddwyieithog yr awdurdod trwy hyrwyddo'r Gymraeg.

**4.5 Y Camau Nesaf:**

4.5.1 Bydd y cam ymchwil dechreuol yn dechrau'n fuan lle bydd y Cyngor yn edrych ar esiamplau o arferion gorau, y wybodaeth ddemograffig sydd ar gael ac yn edrych ar lwyddiannau'r strategaeth flaenorol.

4.5.2 Bydd trafodaethau gydag Aelodau a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y meysydd blaenoriaeth presennol ac os oes angen diwygio neu wella'r rhain yn y strategaeth newydd.

4.5.3 Yn dilyn cyfnod o ddrafftio'r strategaeth, bydd y Cyngor yn dechrau ar gyfnod o ymgysylltiad ac ymgynghoriad mewnol ac allanol cyn drafftio'r adroddiad terfynol, yn barod ar gyfer trafodaeth yn y Cabinet.

**4.6 Amserlen Arfaethedig**

| CAM GWEITHREDU | ERBYN PRYD |
|---|---|
| Ymchwil dechreuol | Mawrth 2021 |
| Trafodaethau / gweithdai gyda Phwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar y themâu allweddol – ydynt yn parhau i fod yn addas i'r diben? | Mehefin 2021 |
| Trafodaeth gydag asiantaethau partner | Gorffennaf 2021 |
| Drafftio'r adroddiad | Medi 2021 |
| Trafodaeth gyda'r Pwyllgor Llywio Iaith Gymraeg | Tachwedd 2021 |
| Ymgynghoriad ar y Strategaeth Iaith Gymraeg | Rhagfyr 2021 / Ionawr 2022 |
| Penderfyniad y Cabinet ar Strategaeth Iaith Gymraeg | Mawrth 2022 |
| Gweithredu Strategaeth Iaith Gymraeg Newydd | Mawrth 2022 ymlaen |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig, sy'n sylfaen i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn. Bydd unrhyw gostau yn cael ei ysgwyddo gan bartneriaid presennol a thrwy ewyllys da aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o brif elfennau'r Ddeddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw:
"Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy Safonau'r Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad gydag Aelod Cabinet Arweiniol y Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw'r dirywiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (yn ôl mesuriad y cyfrifiad cenedlaethol). Mae holl sefydliadau partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu tuag at ddatblygiad y Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 10 Tachwedd 2020 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts/Nicola Stubbins |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gareth Watson, Arweinydd Tîm - Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrch |
| **Teitl** | Gweithgarwch Hyrwyddo'r Gymraeg |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn ymwneud â gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg ers y cyfarfod diwethaf a'r cynlluniau amlinellol ar gyfer y flwyddyn i ddod.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi'r gweithgareddau ers y cyfarfod diwethaf a chymeradwyo'r cynnig ar gyfer gweithgarwch hyrwyddo 2020.

## 4. Manylion yr adroddiad

Mae'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf y grŵp hwn wedi bod yn heriol, gyda'r tîm angen dod o hyd i ffyrdd eraill o gyflawni gweithgarwch hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r holl weithgarwch dros y chwe mis diwethaf wedi'i gynnal drwy gyfarfodydd ar-lein ac ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol a thrwy sianeli cyfathrebu mewnol.

**Gweithio mewn partneriaeth**

Mae cyfarfodydd Partner Iaith (Partneriaeth y Gymraeg yn Sir Ddinbych) wedi parhau ar-lein.  Er bod covid wedi cael rhywfaint o effaith ar waith y bartneriaeth, megis y gwaith o ddadansoddi gweithgarwch cymdeithasol Cymraeg ar draws y sir, rydym wedi llwyddo i symud ymlaen gyda rhai gweithgareddau.

Bydd y Bartneriaeth nawr yn datblygu'r gwaith mapio a bydd yn cynnal grwpiau ffocws (ar-lein) mewn ardaloedd dynodedig i drafod pa fath o gymorth sydd ei angen mewn cymunedau lleol i gefnogi gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg.  Mae hyn yn unol â Strategaeth Iaith Gymraeg bresennol y Cyngor.

Mae'r grŵp hefyd yn edrych ar ffyrdd mwy cyd-gysylltiedig o rannu a rhaeadru negeseuon cyfryngau cymdeithasol gan asiantaethau partner, er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf bosibl.  Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd ar hyrwyddo bodolaeth cyfrifon cyfryngau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg, er mwyn annog mwy o bobl i fanteisio arnynt. Bydd yr holl waith hwn yn helpu'r Cyngor i gynyddu ei gynulleidfa ar-lein.

Ym mis Medi, trafododd aelodau Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg sut yr oedd covid wedi cael effaith ar wasanaethau'r Gymraeg ledled Cymru a thrafod sut yr oeddent yn mynd i'r afael â'r materion.  Pwysleisiwyd hefyd yr angen i sefydliadau barhau i gydymffurfio â'r broses o weithredu Safonau'r Gymraeg, er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael cyfleoedd i gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith. Roeddent yn cydnabod yr heriau yr oedd pob sefydliad wedi'u hwynebu dros y misoedd diwethaf.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda thimau Cymraeg o Wrecsam, Conwy a Sir y Fflint.  Cynhelir y cyfarfodydd hyn i rannu arfer da, trafod unrhyw faterion cyffredin ac i gytuno ar raglen waith gyffredin o weithgareddau hyrwyddo.

**Ymgyrch 'Mae gen i Hawl'**

Ymgyrch gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yw hon i hyrwyddo hawliau pobl i dderbyn gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.  Mae'r ymgyrch yn ddigwyddiad blynyddol, wedi'i chefnogi gan raglen genedlaethol o weithgareddau.

Yn Sir Ddinbych, rydym wedi cefnogi'r ymgyrch hon drwy hyrwyddo'n rheolaidd ond wedi penderfynu ei gweithredu am gyfnod hirach, i ymestyn cyrhaeddiad ein negeseuon a gallu cynnal gweithgareddau hyrwyddo amrywiol.

Mae wedi bod yn gyfle gwych i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu nifer y bobl sy'n dewis cael mynediad atynt. Canolbwyntiodd yr ymgyrch farchnata ar hawliau'r cyhoedd, yn ogystal â hawliau staff sy'n gweithio o fewn y sefydliad.

Ym mis Medi, cafodd astudiaethau achos a oedd yn cynnwys nifer o staff sy'n gweithio mewn gwahanol wasanaethau eu rhoi ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor bob wythnos. Siaradodd y staff am eu rolau a'u cyfrifoldebau a sut roedd y Gymraeg o fudd iddynt yn y gweithle. Mae'r negeseuon wedi creu llawer iawn o sylw cadarnhaol iawn ar ein cyfrifon ac wedi cynyddu cyrhaeddiad/ymgysylltiad ein negeseuon yn gyffredinol.

**Eisteddfod Staff**

Cynhaliodd y Cyngor ei ail Eisteddfod ar Fawrth 6ed fel rhan o ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi, ychydig cyn cyfnod clo cenedlaethol coronaifeirws. Mae'r digwyddiad yn rhan o ymdrechion y Cyngor i godi'r proffil a chael gwell dealltwriaeth o'r iaith, ac i ddathlu diwylliant Cymru. Daw ar adeg pan fo sylw sylweddol ar y Gymraeg a'r ffaith bod Eisteddfod yr Urdd i fod i ddychwelyd i'r sir ym mis Mai 2021. Eleni roedd yr ymateb a'r gefnogaeth a gafwyd yn rhagorol, gyda 62 o aelodau staff wedi'u cofrestru i gystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau.

**Paned a Sgwrs**

Gan fod y mwyafrif o'r staff bellach yn gweithio gartref, cynhaliwyd sesiynau Paned a Sgwrs yn ddigidol. Cafwyd dechrau da iawn i'r sesiynau rhithiol gyda nifer o aelodau'n bresennol, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hyn gan fod angen seibiant ar y staff o fod o flaen y sgrin fach dros amser cinio felly roedd amser y sesiwn yn anghyfleus o gymharu â sesiynau wyneb yn wyneb. Mae'r niferoedd wedi codi eto yn ddiweddar ac mae'r adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Paratowyd tasgau ysgrifenedig wythnosol ar gyfer staff, er mwyn datblygu eu sgiliau ysgrifennu yn Gymraeg.

**Diwrnod Owain Glyndŵr**

Eleni i ddathlu diwrnod Owain Glyndwr, rhannodd y Cyngor fideo yr oedd wedi'i gynhyrchu ar ei gyfrifon cymdeithasol corfforaethol. Mae'r fideo'n dangos cysylltiadau Glyndŵr â Sir Ddinbych a lleoedd arwyddocaol o fewn y sir yn ymwneud â'i hanes. Cafodd hyn adborth cadarnhaol iawn gan staff a dywedodd llawer nad oeddent yn ymwybodol pa mor arwyddocaol oedd Sir Ddinbych i hanes Glyndŵr.

**Diwrnod Shwmae Su'mae**

Cefnogodd y Cyngor ymgyrch genedlaethol Diwrnod Shwmae Sumae ym mis Hydref. Bwriad y diwrnod yw hyrwyddo'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae neu sumae. Nod y dydd yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb – siaradwyr rhugl, dysgwyr neu'r rhai a all fod yn amharod i siarad Cymraeg.

**Tasgau Tachwedd**

Yn ystod wythnos gyntaf pob mis byddwn yn llunio ac yn cyflwyno tasgau byr a hwyliog i staff eu cwblhau ar-lein. Bydd y tasgau â thema wahanol bob wythnos fydd yn cyd-fynd â'r mis/tymor. Y nod yw ymgysylltu â staff drwy gyfrwng y Gymraeg a cheisio eu cael i ddefnyddio a meddwl yn Gymraeg wrth gweithio gartref.

**4.5 Y camau nesaf: Amserlen arfaethedig y gweithgarwch ar gyfer 2021:**

Mae'r rhestr isod yn gipolwg ar y gweithgarwch hyrwyddo arfaethedig a fydd yn digwydd yn ystod 2021.

Mae hyn ar ben elfen reoleiddio'r rôl i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a'r gwaith a wneir ar ddatblygu Strategaeth y Gymraeg yn ystod 2021.

| **MIS** | **GWEITHGARWCH HYRWYDDO** |
|---|---|
| **Ionawr 2021** | Annog mwy o staff i gwblhau arolwg y Gymraeg.<br><br>Hyrwyddo dysgu Cymraeg fel adduned Blwyddyn Newydd |
| | Dathlu Diwrnod Santes Dwynwen cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| | Hyrwyddo mewnol ynghylch gohebiaeth (Safonau'r Gymraeg) |
| **Chwefror 2021** | Dathlu Dydd Miwsig Cymru |
| | Hyrwyddo agenda 'Mwy na Geiriau' a chodi proffil y gwaith sy'n mynd rhagddo ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i hyrwyddo gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| | Hyrwyddo mewnol o amgylch cynnal a threfnu cyfarfodydd (i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg) |
| **Mawrth 2021** | Adolygiad o gyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol y Gymraeg |
| | Dathlu Dydd Gwyl Dewi |
| | Eisteddfod Staff |
| | Gwaith mapio (Partner Iaith) |
| **Ebrill 2021** | Ymgyrch hyrwyddo i annog mwy o bobl i ddilyn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg |
| | Ymarfer Siopwr Cudd i wirio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg |
| | Hyrwyddo rôl Comisiynydd y Gymraeg ac ymrwymiad y Cyngor i weithredu'r Safonau |
| **Mai 2021** | Eisteddfod yr Urdd |

| | |
|---|---|
| | Ymarfer Siopwr Cudd i wirio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg |
| | Gwaith mapio (Partner Iaith) |
| **Gorffennaf 2021** | Hyrwyddo diwylliannol o amgylch Eisteddfod Llangollen |
| **Awst 2021** | Eisteddfod Genedlaethol |
| | Cynhyrchu fideos i hyrwyddo Safonau'r Gymraeg |
| **Medi 2021** | Dathlu Dydd Owain Glyndwr |
| | Gwaith mapio (Partner Iaith) |
| **Hydref 2021** | Dathlu Diwrnod Shwmae Sumae |
| | Hyrwyddo Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ac annog mwy o staff i ystyried dysgu Cymraeg. |
| **Tachwedd a Rhagfyr 2021** | Ymgyrch ‘Mae gen i hawl’ |

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygu'r Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, sy'n sail i Gynllun Corfforaethol y Cyngor.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes cyllid ar gael ar gyfer y gwaith hwn.  Byddai unrhyw gostau'n cael eu hamsugno gan y partneriaid presennol a thrwy ewyllys da'r aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Er nad oes angen Asesiad Effaith Llesiant ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg.

Un o elfennau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw cael: "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden."

Mae gan y Cyngor rôl hefyd, drwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

## 8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y brif risg yw gostyngiad posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir (fel y'i mesurir gan y cyfrifiad cenedlaethol).  Mae pob sefydliad partner hefyd wedi ymrwymo i gyfrannu at ddatblygu'r Gymraeg yn genedlaethol a thuag at y targed miliwn o siaradwyr a bennwyd gan Lywodraeth Cymru erbyn 2050.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR LLYWIO’R IAITH GYMRAEG

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|
| **16 Mawrth 2020** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **13 Gorffennaf 2020** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| **9 Tachwedd 2020** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**<u>EITEMAU’R DYFODOL</u>**

| **Cyfarfod** | **Eitem (disgrifiad / teitl)** | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag